Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu** | |
| **Lleoliad:** | **Llyfrgell Llanelli, Llanelli** | |
| **Dyddiad:** | **13eg o Chwefror, 2018** | |
| **Amser:** | **10:00 – 13:00** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl, Mark Collins (PG)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Y Dirprwy Brif Gwnstabl, Darren Davies (DPG)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Ms Emma Northcote, Cyfathrebu Corfforaethol (EN)<br>Swyddog Staff, Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 03/11/2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | Cynnydd: |
| **PAB 068** | **HDP i ddarparu diweddariad ar wefan SCHTh yn y Bwrdd Plismona ar Dachwedd 21, 2017.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 069** | **Cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu i gael eu haildrefnu.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 070** | **Adroddiadau Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) i'w darparu i SCHTh.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 071** | **Y Pennaeth Staff, Carys Morgans, i gynrychioli Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wrth ddrafftio Datganiadau Rheoli'r Heddlu yn y dyfodol.** | **Cwblhawyd ers 14/2/2018** |
| **PAB 072** | **Joanna Thomas i gysylltu gyda Kerrie Phillips i drafod datblygiadau Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr** | **Parhaus** |
| **PAB 073** | **Carys Morgans i gysylltu ag Emma Northcote a Steve Cockwell yn dilyn cynhadledd gyhoeddus.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 074** | **Dadansoddiad o broffil iaith i'w ddarparu i SCHTh.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 075** | **Adroddiad Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) i'w ddarparu i SCHTh.** | **Cwblhawyd** |

## 1 Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Comisiynydd fyfyrwyr chweched dosbarth o ysgol uwchradd leol Ysgol y Strade a'u hathrawon. Cyflwynodd aelodau'r Bwrdd eu hunain yn eu tro i'r myfyrwyr gan ddisgrifio'u rôl o fewn Heddlu Dyfed-Powys (HDP) neu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh).

Dilynodd sesiwn holi ac ateb byr a oedd yn cynnwys y CHTh yn holi'r myfyrwyr ynghylch eu hoffterau cyfryngau cymdeithasol. Cyfeiriwyd at straeon ar twitter gan dîm cyfathrebu HDP ynghylch newyddion a digwyddiadau lleol. Gofynnodd y dosbarth i'r Bwrdd ynghylch mesurau cynllunio ar gyfer argyfwng HDP. Cawsant eu cynghori bod gwaith cynllunio'n cael ei gyflawni gydag ymagwedd amlasiantaethol lle mae awdurdodau lleol, yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub yn trefnu ymatebion i argyfyngau yn seiliedig ar ba wasanaeth sydd ei angen. Holwyd y Bwrdd ynghylch polisi'r Heddlu o recriwtio swyddogion o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol a hiliol. Nododd y PG fod 2% o ardal Heddlu Dyfed-Powys wedi ei ffurfio o breswylwyr du ac o leiafrifoedd ethnig felly y dylai'r 2% hwnnw gael ei adlewyrchu a'i gynrychioli yn nheulu HDP. Nodwyd fod HDP yn rheolaidd yn cynnal ymgyrchoedd recriwtio mewn mosgiau, prifysgolion a grwpiau cymunedol. Nododd CHTh fod 41% o ardal yr Heddlu wedi ei ffurfio o breswylwyr sy'n siarad Cymraeg ac y dylai hynny hefyd gael ei gynrychioli yn nheulu HDP, a bod siaradwyr Cymraeg yn cael ei recriwtio'n weithredol i safleoedd o fewn yr Heddlu a SCHTh. Ar hyn o bryd mae gan 1600 o swyddogion a staff HDP allan o 2000 'beth gallu yn y Gymraeg'. Rhoddwyd gwybod i'r dosbarth bod HDP yn cyflogi Swyddog Amrywiaeth a bod y rôl hon yn cynnwys trefnu digwyddiadau amrywiaeth, a bod rhai eisoes wedi eu trefnu ar gyfer 2018. Cydnabu CHTh y gymuned Bwylaidd yn Llanelli a nododd fod cynrychiolaeth o gymunedau bach tebyg o fewn ardal yr Heddlu'n ddymunol. Noddodd y DPG hefyd recriwtio cyson swyddogion benywaidd i'r Heddlu. Cydnabu CHTh farwolaeth swyddog Heddlu Dyfed-Powys a oedd yn ddiweddar wedi ymddeol yn dilyn ei 50fed flwyddyn o wasanaeth i'r Heddlu. Estynnodd CHTh gydymdeimlad y Bwrdd i deulu'r swyddog.

## 2 Cofnodion y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar y 13eg o Chwefror a Materion yn Codi

Yn dilyn diwygio camgymeriad o ran dyddiad, teimlwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar y 13eg o Chwefror yn adlewyrchiad gwir a theg o'r cyfarfod.

PAB 066 - Lansio gwefan - Rhoddwyd gwybod i'r CHTh y byddai gwefannau HDP a SCHTh yn cael eu lansio'r diwrnod canlynol, dydd Mercher y 14eg o Chwefror.

PAB 067 - Y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus (SGC) - Gofynnodd CHTh i gyfarfod gael ei drefnu rhyngddo ef â staff yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP), y Pennaeth

Staff a'r DPG i drafod trosglwyddiad y SGC sydd ar hyn o bryd wedi ei lleoli o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) i'r ASP.

PAB 068, 069 a 070 - cydnabuwyd bod y rhain i gyd wedi eu cwblhau.

PAB 071 – Datganiad Rheoli'r Heddlu – Nododd y Pennaeth Staff y byddai cyfarfod yn digwydd yfory, y 14eg o Chwefror, i symud ymlaen gyda drafftio Datganiad Safonau'r Heddlu.

PAB 072 - Boddhad Dioddefwyr - Penderfynwyd fod angen ymgysylltu pellach i asesu pa mor fodlon yw dioddefwyr gyda'u perthynas cyfredol gyda'r Heddlu.

PAB 073 a PAB 074 – cydnabuwyd fod y ddau wedi eu cwblhau gyda phwynt gweithredu i ddadansoddiad y Proffil Iaith gael ei drafod yn y Bwrdd Plismona.

**Cam Gweithredu: Dadansoddiad y Proffil Iaith a ddarparwyd i'r CHTh ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn Nhachwedd 2018 i'w drafod mewn Bwrdd Plismona yn y dyfodol.**

PAB 075 - cydnabuwyd bod hwn wedi ei gwblhau.

## 3 – Adroddiad Perfformiad yr Heddlu – Chwarter 2

Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu fod safle cyffredinol yr Heddlu'n un cadarnhaol, gyda 73.9% o ymatebwyr i'r arolwg boddhad yn rhoi adborth cadarnhaol o'u perthynas gyda HDP. Nododd CHTh fod yr arolwg yn nodi mai HDP oedd y cyflawnwyr gorau o Gymru a Lloegr o ran argraff y cyhoedd ynghylch a oedd yr Heddlu'n gwneud gwaith 'da' neu 'rhagorol'. Ystyriodd CHTh fod y lefelau hyn o'r rhai hynny sy'n fodlon mewn arolygon boddhad defnyddwyr yn parhau'n isel mewn perthynas ag ymgysylltu dilynol gan yr heddlu. Nododd y PG fod yr Heddlu'n ymdrin â hyn, gyda rhingylliaid ac arolygyddion wedi eu tasgio i sicrhau bod gwaith dilynol yn cael ei gwblhau ar achosion. Codwyd y mater hwn yng Ngrŵp y Prif Swyddogion a nododd y DPG y byddai cyfarfod y Bwrdd Plismona ar waith y Gwasanaeth a Gomisiynir, Goleudy (yn cefnogi Dioddefwyr a Thystion Trosedd) a fyddai'n digwydd ar 16eg o Chwefror yn pwysleisio tair haen o ran sicrwydd.

**Cam Gweithredu: Amserlenni cyfarfodydd i drafod sicrwydd i'w darparu i'r CHTh.**

Cydnabu'r Bwrdd y lefelau isel o ran bodlonrwydd y cyhoedd mewn perthynas â chyfraniad yr heddlu mewn troseddau treisgar a daethant i'r casgliad ei fod yn anodd plesio'r ddwy ochr mewn achosion o ymosod. Nododd y DPG fod Digwyddiad Perfformiad wedi ei gynnal dan nawdd HDP yn Ionawr lle canolbwyntiwyd ar gau

ymholiadau ac ymchwiliadau'n gyflymach; hynny yw o fewn 30 diwrnod. Symudodd y drafodaeth ymlaen at achosion etifeddol o fewn yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP) sy'n cael eu monitro'n fisol; nododd y DPG y craffir yn weithredol ar achosion o'r fath sy'n parhau am fwy na chwe mis.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at arwchiliad Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasnaethau Tân ac Achub ei Mawrhydi o strategaethau Troseddau Casineb yr Heddlu yr amcangyfrifwyd y byddai'n digwydd ym mis Mai 2018. Nododd y DPG fod gwaith diweddar a gyflawnwyd yn fewnol yn awgrymu bod cofnod boddhad troseddau casineb yr Heddlu'n gadarnhaol. Dilynnodd trafodaeth ynghylch archwiliad y ddalfa Arolygiaeth Heddluoedd ei Mawrhydi na fydd yn cael ei ddatgan o flaen llaw. Cyflawnwyd Archwiliad y Ddalfa yn Nhachwedd 2017 a disgwylir ymateb cyn hir.

Dilynodd trafodaeth ynghylch adrodd am droseddau i'r heddlu gan ganolbwyntio ar droseddau gwledig. Cydnabu'r PG gyda lansiad Strategaeth Troseddau Gwledig HDP/SCHTh y byddai mwy o anogaeth i adrodd am droseddau gwledig a ffermio i'r heddlu, lle yn flaenorol nid oedd hyn yn cael ei wneud. Nododd CHTh bod cynnydd wedi bod o ran troseddau y rhoddwyd adroddiad amdanynt i'r heddlu rhwng 2016 a 2017 a chydnabu'r Bwrdd y gallai gwell prosesau cofnodi fod yn gyfrifol am hyn.

**Cam Gweithredu: yr Heddlu i ddarparu dadansoddiad o droseddau yr adroddwyd amdanynt i'r heddlu, gan gynnwys troseddau gwledig, i Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn haf 2018.**

Tynnodd CHTh sylw at ostyngiadau o ran troseddau cyffuriau yn Adroddiad Perfformiad yr Heddlu, fodd bynnag roedd yn aneglur pa fath o droseddau roedd y ddogfen yn cyfeirio atynt.

**Cam Gweithredu: yr Heddlu i ddarparu dadansoddiad o droseddau cyffuriau, yn benodol nifer y troseddau masnachu cyffuriau, erbyn Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yng ngwanwyn 2018.**

Symudodd y CHTh y drafodaeth ymlaen i droseddau meddiant arfau a throseddau'n ymwneud â chyllyll yn benodol. Mae troseddau 'meddiant arf' HDP wedi gostwng 4% a gofynnodd CHTh a oedd y gostyngiad wedi ei bwysleisio yn y cyfryngau yn dilyn tybiaeth o gynnydd mewn troseddau'n ymwneud â chyllyll yn ardaloedd Glannau Merswy a Llundain. Awgrymodd CHTh y dylai data troseddau a gofnodwyd a pherfformiad gael ei adolygu ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn haf 2018.

**Cam Gweithredu: Data troseddau a gofnodwyd a pherfformiad i gael ei adolygu ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn haf 2018.**

Dilynodd trafodaeth ynghylch troseddau rhyw; derbyniodd CHTh nad oedd yn ymddangos fod patrwm yn y ffigurau troseddau rhyw a gofnodwyd.

Nododd CHTh fod dwyn ar hyn o bryd yn 20% o gyfanswm y troseddau a gofnodir yn HDP. Gofynnodd CHTh pa weithgaredd gweithredol a gyflawnir i dargedu gostyngiad o ran dwyn a rhoddwyd gwybod iddo nad oes data cyfredol sy'n gwahaniaethu rhwng yr amrywiol fathau o fân ladrata, e.e. dwyn ffonau symudol, waledi ayb.

**Cam Gweithredu: yr Heddlu i ddarparu data ynghylch troseddau mân ladrata lefel is.**

Nododd CHTh bryderon ynghylch lefelau uchel o drais yn erbyn yr unigolyn a gofynnodd beth oedd yr Heddlu'n ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem. Nododd y PG fod 41 o'r 43 Heddlu yn y DU wedi gweld cynnydd o ran trais yn erbyn yr unigolyn, sy'n awgrymu tuedd genedlaethol.

**Cam Gweithredu: Adolygiad o drais yn erbyn yr unigolyn i'w gyflawni ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn haf 2018.**

Gadawodd myfyrwyr ac athrawon Ysgol y Strade y cyfarfod.

Symudodd CHTh y drafodaeth i Blismona'r Ffyrdd a'r diweddariad a dderbyniwyd gan yr Heddlu. Gofynnodd CHTh am fwy o wybodaeth wedi ei rannu fesul mis unigol a nododd bryderon ynghylch targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phlismona'r ffyrdd erbyn 2020. Ymholodd CHTh ynghylch y modd y mae cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer Plismona'r Ffyrdd yn cael eu gwneud yn weithredol er mwyn ceisio cyflawni'r targedau hyn.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu diweddariad cyfredol ar Blismona'r Ffyrdd i SCHTh a darparu ffigurau chwarterol gweithredoedd gweithredol ar gyfer Plismona'r Ffyrdd i'r Bwrdd Plismona ym mis Mai 2018.**

Symudodd y drafodaeth ymlaen i Gyfradd Eugofarnau Llys y Goron DP sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nododd y DPG fod cyfradd cyhuddo HDP yn isel a holodd a oedd yr Heddlu'n wrth-risg.

**Cam Gweithredu: Cyfradd Euogfarnau Llys y Goron isel HDP i ymddangos ar agenda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.**

Dilynodd trafodaeth ynghylch Stopio a Chwilio gyda chwiliadau cadarnhaol ar hyn o bryd yn 40%, sef y gorau yn y wlad. Nododd CHTh ei bod yn ymddangos bod pobl ifanc yn cael eu stopio bob dydd. Awgrymodd CHTh y dylid sicrhau dadansoddiad o oed y bobl ifanc sy'n cael eu stopio. Dilynodd trafodaeth ynghylch lefel y craffu mewn perthynas â stopio a chwilio.

**Cam Gweithredu: SCHTh i fod yn rhan o weithgaredd craffu ynghylch stopio a chwilio HDP.**

Symudodd y drafodaeth ymlaen i ddigwyddiadau domestig. Nododd CHTh fod gostyngiad wedi bod ers 2016 yn niferoedd yr ail-droseddu mewn perthynas â digwyddiadau domestig. Nododd y DPG fod Bwrdd Perfformio HDP wedi eu tasgio gyda chraffu ar ffigurau digwyddiadau domestig yn Ionawr 2018, a bod swyddogion wedi eu tasgio gyda chynnal perfformiad er mwyn sicrhau ansawdd canlyniadau mewn achosion domestig.

Cyfeiriodd CHTh at yr amserau ateb cadarnhaol ar gyfer galwadau 101 i HDP yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd amser disgwyl cyfartalog galwadau wedi gostwng o 40 eiliad i 20 eiliad, gan arwain at ganran uwch o alwadau'n cael eu hateb, gyda'r ffigur ar hyn o bryd yn 98%. Nododd CHTh y byddai'n ddefnyddiol iddo gael dadansoddiad o'r data.

## 4 – Perfformiad Ariannol

Canmolodd CHTh ragolwg cadarnhaol cyffredinol yr Adroddiad Perfformiad Ariannol o ystyried y gweithgarwch ystadau diweddar o amgylch Pencadlys yr Heddlu.

Gofynnodd y PSA i'r CC beth fyddai'r sefyllfa derfynol. Nododd y CC fod yr Heddlu i lawr £283,000 a'i fod yn meddwl y byddai hwn yn dod lawr eto oherwydd cynlluniau recriwtio a chroniadau. Sonnir am bwysau gweithredol. Nododd y CC fod pawb yn ymwybodol o'r pwysau Ariannol. Nododd y PSA fod y gorwariant rhagfynegol yn £280,000 cyn y Nadolig, a'i fod wedi dod nôl i £90,000 ers yr amser hynny. Nododd CHTh fod cam mawr i'r cyfeiriad cywir wedi digwydd chwarter yn ôl.

Gofynnodd y PSA beth fydd sefyllfa derfynol y flwyddyn ariannol 2017/18. Nododd y CC fod nifer o ffactorau, gan gynnwys ymddeoliad staff a phwysau gweithredol yn golygu bod rhagfynegi'r sefyllfa derfynol yn anodd.

Cydnabu CHTh waith sylweddol gan y CC i isafu gwariant gan yr Adran Ystadau sydd nawr o dan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Ar ddiwedd y drafodaeth gofynnodd CHTh a oedd unrhyw beth y dylai ef fod yn bryderus yn ei gylch mewn perthynas â'r data. Nododd y CC pan yr oedd wedi asesu'r data fod gorwariant o £406,000; nododd fod gan hanner y gweithredoedd a gostwyd gyllid ynghlwm â hwy neu roeddynt yn ddigwyddiadau unigol fel darparu gwasanaeth tywys ym Mrechfa. Nododd hefyd y byddai ymosodiadau terfysgol yn Llundain a Manceinion hefyd wedi cael effaith ar gostau gweithredol. Nododd fod £200,000 y mae angen ei wthio'n ôl. Roedd lefelau staff yn isel ar ddechrau'r flwyddyn, a gwelwyd effaith ar y gyllideb yn dilyn recriwtio mae hyn wedi cael.

Nododd y PSA y byddai'n ddefnyddiol gweld y data heb yr eitemau sydd â chyllid ynghlwm â hwy. Nododd y CC fod incwm yn cael ei adfer o'r ddau.

Gofynnodd CHTh hefyd ynghylch monitro unigolion sydd o bosibl yn hawlio cyfleoedd goramser yn aml; teimlwyd fod gan y pwynt hwn oblygiadau ariannol a goblygiadau o ran lles swyddogion. Nododd y DPG bod gweithgaredd goramser yn cael ei fonitro'n gyson. Nododd y PG fod cost goramser wedi gostwng yn sylweddol ers Awst 2017 o ganlyniad i welliant o ran niferoedd swyddogion yn ystod y 6 mis diwethaf. Nododd y CC fod yr Heddlu'n glynu at reol 48 awr Oriau Gwaith Ewropeaidd a'u bod yn gweithredu systemau clocio i mewn er mwyn monitro'r oriau y mae swyddogion yn gweithio.

Nododd y PG fod yr Heddlu'n gyffredinol mewn sefyllfa dda.

## 5 – Diweddariad ar y Cynllun Cyflenwi ar gyfer yr Heddlu a Throseddu

Cadarnhaodd y DPG fod y Prif Swyddogion wedi cael y cyfle i drafod yr adroddiadau ar ddeilliannau gyda'u hawduron a bod graddfa ar gyfer pob un wedi eu cytuno ar y cyd.

### a) Boddhad Dioddefwyr

Cyflwynwyd gwerth 6 mis o ddata i CHTh. Cydnabu CHTh hyd rhai o'r achosion, a bod ASP wedi addo cwblhad ar gyfer yr achosion hynny erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

### b) Ffydd y Cyhoedd

Symudodd y drafodaeth ymlaen i ddiweddariadau a gyflwynwyd gan Swyddfa'r Wasg. Nododd CHTh bryderon ynghylch gwneud y gorau o gyfleoedd a oedd yn codi yn sgil Ymgyrch Cynefin. Gofynnodd CHTh sut yr oedd yr ymgysylltu hwn gyda'r cyhoedd yn bwydo plismona gweithredol. Dilynodd trafodaeth ynghylch y synergedd rhwng amrywiol adrannau, gyda CHTh yn awgrymu ymarfer cwmpasu o'r troshaenu rhwng ASP, Canolfan Reoli'r Heddlu, y Ganolfan Gwsmeriaid ac Ymgyrch Cynefin er mwyn darparu gwasanaeth cyson.

### c) Iechyd a Lles Sefydliadol

Adolygodd y Bwrdd adroddiad a ddarparwyd gan yr adran Iechyd a Lles Sefydliadol. Dilynodd trafodaeth ynghylch ansawdd hyfforddiant i arweinwyr a gweithgaredd Calon. Nododd y PG ei fod yn rhan o Fwrdd Gwerthuso gweithgarwch o'r fath a'i fod yn ei ystyried yn gadarnhaol iawn, a hynny i'r fath raddau fel bod Heddlu Gogledd Cymru a Ffederasiwn yr Heddlu'n genedlaethol wedi mynegi diddordeb mewn mabwysiadu'r un modelau arweinyddiaeth trawsffurfiol. Nododd y DPG fod y model

cyfredol, yn wahanol i rai blaenorol, wedi ei ymwreiddio yn strwythur HDP. Symudodd y drafodaeth ymlaen i'r broses Cofnodi Datblygiad Personol (PDR) y mae cyfran o staff HDP wedi ei ddisgrifio fel 'gosod ticiau mewn blychau'. Nododd y PG fod yr Heddlu'n edrych at ddiwygio'r system PDR a'i wella er mwyn bodloni disgwyliadau staff.

**ch) AHEM**

Ystyriodd y Bwrdd adroddiad ynghylch Arolygiaeth Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub ei Mawrhydi (HMICFRS). Cyhoeddodd y DPG y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng Prif Swyddogion a chynrychiolwyr AHEM mewn perthynas â'r archwiliad diweddaraf. Mae ymgynghorydd ar hyn o bryd yn gweithio gyda HDP mewn perthynas â gwaith AHEM, a thrafododd y Bwrdd strategaeth ymadael ar gyfer yr ymgynghorydd yn dilyn arolwg Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL) yn yr hydref gan AHEM.

### d) Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC)

Cydnabu'r Bwrdd rai achosion hirdymor yr oedd CHTh eisoes wedi cael gwybod amdanynt. Tynnodd y PS sylw at bryderon ynghylch cadeiryddion wedi ymgymhwyso yn y gyfraith, lle nad oedd y strwythur talu cyfredol yn cynnwys amser paratoi, a chyfeiriodd at Grŵp Plismona Cymru Gyfan blaenorol lle roedd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi penderfynu mabwysiadau'r model a ddefnyddir gan Heddluoedd Lloegr a Heddlu Gwent. Byddai'r model newydd yn caniatáu talu am amser paratoi, yn caniatáu cysondeb ar draws Heddluoedd ac yn caniatáu i HDP gael mynediad at Hyfforddiant y Coleg Plismona. Mae hwn wedi ei amserlenni i gychwyn o fewn yr Heddlu ar y 1af o Ebrill 2018.

Cydnabu CHTh argymhelliad y Swyddfa Gartref mewn perthynas â symud y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus o Swyddfa'r Comisiynydd i berchnogaeth HDP. Byddai'r Swyddfa'n trosglwyddo'n ffurfiol ar y 1af o Ebrill 2018 ond roedd cynllun pontio mewn lle i sicrhau y byddai hon yn broses lefn. Roedd hyn yn cynnwys ASP yn cymryd cyfrifoldeb rheoli llinell o'r 1af o Ionawr 2018.

## 6 – Diweddariad ar feysydd ffocws y Bwrdd Plismona yn ystod y chwarter diwethaf

Roedd Wynne Jenkins o Llamau, elusen sy'n arbenigo mewn pobl ifanc yn bresennol ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu i roi mewnbwn ar waith y sefydliad. Mae Llamau wedi ei gomisiynu gan SCHTh Heddlu Dyfed-Powys i ddarparu cefnogaeth arbenigol ynghylch plant sydd ar goll ar draws ardal yr Heddlu. Ar hyn o bryd mae tri aelod o staff ar draws ardal yr Heddlu wedi eu lleoli yn Ystradgynlais, Rhydaman a'r Drenewydd. Mae plant yr adroddwyd eu bod ar goll yn flaenorol yn cael eu cyfeirio

at y gwasanaeth gan HDP gan gydymffurfio â chyfreithiau diogelu data cyfredol. Gofynnodd y PS a oedd gan Llamau fynediad i'r holl wybodaeth yr oedd ei angen arnynt gan HDP a chafodd wybod er bod gan yr elusen fynediad yn rheolaidd at wybodaeth bod rhai achlysuron pan maent yn cael eu gorfodi i gysylltu ag ysgol neu rieni i gael gwybodaeth berthnasol.

Gofynnod y Bwrdd ynghylch amserau ymateb i achosion o blant yn mynd ar goll a pherthynas y sefydliad gyda HDP, ac roedd yr ymateb i hyn yn gadarnhaol. Mae Llamau'n gweithio gyda theuluoedd plant sydd ar goll, plant y cafwyd adroddiad blaenorol eu bod ar goll a sefydliadau fel cartrefi gofal.

Gofynnodd EN i Mr Jenkins am y newid tymhorol ymddangosiadol o ran niferoedd y plant sy'n mynd ar goll. Nododd Mr Jenkins ei fod yn ymddangos bod llai o blant yn mynd ar goll yn ystod gwyliau haf yr ysgolion, o bosibl gan fod rhai plant yn mynd ar goll o ganlyniad i broblemau sy'n codi yn ystod tymor yr ysgol. Awgrymodd y DPG y gallai gwaith gael ei wneud gydag ysgolion ynghylch yr adegau mwyaf cyffredin pan mae plant yn mynd ar goll.

Dysgodd y Bwrdd fod gwybodaeth ynghylch plant sy'n mynd ar goll o ganlyniad i ffactorau fel camfanteisio rhywiol neu gamddefnyddio cyffuriau yn cael ei fwydo'n ôl i'r heddlu, a hynny gan ddiogelu gwybodaeth bersonol y plentyn.

Gofynnodd EN am adborth ynghylch sut y gall dudalennau cyfryngau cymdeithasol HDP gynorthwyo gydag achosion o blant sy'n mynd ar goll. Nododd Mr Jenkins fod ymateb gan blant yn amrywio e.e. plant yn dioddef stigmateiddio o gael eu labelu fel 'plentyn sydd ar goll' wedi iddynt gael eu darganfod, ac yn darganfod unwaith iddynt gael eu labelu felly ar gyfryngau cymdeithasol y gallai hynny effeithio ar ffactorau eraill.

Gadawodd Mr Jenkins y cyfarfod.

## 7 – Adborth gweithgarwch craffu

Trafododd y Bwrdd weithgarwch craffu'r Heddlu gan SCHTh, a gefnogwyd gan Banel Craffu SCHTh.

**Cam Gweithredu: Y DPG i gyfarfod ag Ymgynghorydd Polisi a Sicrwydd SCHTh mewn perthynas â gweithgarwch craffu parhaus.**

Cododd y DPG fater penodol yn ymwneud â digwyddiad domestig lle roedd Panel Craffu Gwaredu Oddi Allan i'r Llys yn ystyried y dylai'r troseddwr yn yr achos hwnnw fod wedi cael ei gyhuddo gan yr Heddlu. Sefydlodd y Bwrdd fod pob cyhuddiad mewn achosion domestig yn cael eu gwneud drwy Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) nid yr Heddlu.

**9 – Crynodeb Gweithredu a Risg o'r Cyfarfod**

**10 – Unrhyw Fusnes Arall**

**a) Diweddariad Iechyd Meddwl**

Trafododd y Bwrdd yn fyr y Diweddariad Iechyd Meddwl a ddarparwyd gan yr Heddlu. Nododd y PG fod y Cynllun Iechyd Meddwl Strategol yn cael ei fonitro'n rheolaidd ganddo ef, a bod y Prif Gwnstabl Cynorthwyol wedi Cadeirio'r Bwrdd Iechyd Meddwl Strategol yn Ionawr 2018. Bydd Brysbennu Stryd ar gael i'r cyhoedd saith diwrnod yr wythnos o Ebrill 2018. Mae'r PG ar hyn o bryd yn goruchwylio prosiect i adfywio Diwrnod Hyfforddiant Iechyd Meddwl yr Heddlu a'i gysylltu gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

**Cam Gweithredu: y Ganolfan Gwasanaeth Cyhoeddus i fynychu Diwrnod Hyfforddiant Iechyd Meddwl yr Heddlu**.

**b) Llythyr Praesept**

Cefnogodd y Panel Heddlu a Throseddu'n unfrydol y cynnydd o 5% yn y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Nododd y PSA fod cyfanswm cyllideb yr Heddlu wedi cynyddu i £99.1 miliwn ar gyfer 2017/18 o £96.6 miliwn y flwyddyn ariannol flaenorol.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 13/02/2018 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | I'w gyflawni gan: |
| **PAB 076** | **Yr Heddlu i ddarparu dadansoddiad o droseddau yr adroddwyd amdanynt i'r heddlu, gan gynnwys troseddau gwledig, i Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn haf 2018.** | **IID** |
| **PAB 077** | **Yr Heddlu i ddarparu dadansoddiad o droseddau cyffuriau, yn benodol nifer y troseddau masnachu cyffuriau, erbyn Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yng ngwanwyn 2018.** | **IID** |
| **PAB 078** | **Data troseddau a gofnodwyd a pherffomiad i gael ei adolygu ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn** | **MH** |

| | | |
|---|---|---|
| | **haf 2018.** | |
| **PAB 079** | **Yr Heddlu i ddarparu data ynghylch troseddau mân ladrata lefel is.** | **IID** |
| **PAB 080** | **Adolygiad o drais yn erbyn yr unigolyn i'w gyflawni ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn haf 2018.** | **MH** |
| **PAB 081** | **Yr Heddlu i ddarparu diweddariad cyfredol ar Blismona'r Ffyrdd i SCHTh a darparu ffigurau chwarterol gweithredoedd gweithredol ar gyfer Plismona'r Ffyrdd i'r Bwrdd Plismona ym mis Mai 2018.** | **GB** |
| **PAB 082** | **Cyfradd Euogfarnau Llys y Goron isel HDP i ymddangos ar agenda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.** | **BD** |
| **PAB 083** | **SCHTh i fod yn rhan o weithgaredd craffu ynghylch stopio a chwilio HDP.** | **CB** |
| **PAB 084** | **Y DPG i gyfarfod ag Ymgynghorydd Polisi a Sicrwydd SCHTh mewn perthynas â gweithgarwch craffu parhaus.** | **CB** |
| **PAB 085** | **Y Ganolfan Gwasanaeth Cyhoeddus i fynychu Diwrnod Hyfforddiant Iechyd Meddwl yr Heddlu.** | **ASP** |

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Mai'r 8fed 2018